# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth

**Dyddiad:** Dydd Gwener Mawrth 10ed, 2000

**Amser:** 10.30 am

**Lleoliad :** Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog

**Presennol :**

| | | |
|---|---|---|
| Glyn Davies, Cadeirydd | Ceidwadwyr | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Trefaldwyn |
| Nick Bourne | Ceidwadwyr | Canol a Gorllewin Cymru |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canol a Gorllewin Cymru |
| Dafydd Elis-Thomas | Plaid Cymru | Merionnydd Nant Conwy |
| Elin Jones | Plaid Cymru | Ceredigion |
| Alun Michael | Llafur | Canol a Gorllewin Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Maesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor :**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau :** Dim

**Eilyddion :** Dim

**Datganiadau o Ddiddordeb:** Dim

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd a'r rhai oedd yn mynd i wneud cyflwyniadau gerbron y pwyllgor i'r cyfarfod a diolchodd i Mr Dewi Lake, prifathro Ysgol y Moelwyn, ar ran y Pwyllgor, am ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal yn yr ysgol.

Eglurodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn gyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol a bod gorchmynion sefydlog y Cynulliad Cenedalethol ar gyfer ymddygiad a gweithdrefnau yn

berthnasol.

**Eitem Agenda 1 : Lleihau tor-cyfraith yn y Gymuned**

1.1 Atgoffwyd y pwyllgor gan y Cadeirydd fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am leihau tor-cyfraith o dan Deddf Tor-cyfraith ac Anhrefn 1998. Yr oedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu cynlluniau strategaeth lleol ar gyfer lleihau tor-cyfraith. Trefnwyd dau gyflwyniad, un gan Mr Peter Clough, Dirprwy Brif Gwnstabl Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys a'r llall gan Mr Michael Argent, Prif Gwnstabl Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, oedd yn gyfrifol am yr hen Sir Feirionnydd. Yn anffodus, yr oedd Mr Clough wedi anfon ei ymddiheuriadau ac nid oedd wedi gallu cynnig siaradwr yn ei le. Mynegodd Aelodau eu siom a'u hanfodlonrwydd, gan deimlo ei bod yn annerbyniol nad oedd cynrychiolydd yn gallu bod yn bresennol a **chytunwyd y dylid cyfleu eu safbwynt i'r Dirprwy Brif Gwnstabl.**

1.2 Darparwyd cyflwyniad Power Point gan Mr Argent ar y cyd a'i anerchiad ac amgaeir y cyflwyniad hwnnw fel **Atodiad 1.** Eglurodd Mr Argent bod plismona yn ran annatod o isadeiledd cymdeithasol bywyd pob dydd yng Nghymru ac roedd yn croesawu'r cyfle i wneud ei gyflwyniad. Gallai siarad gydag awdurdod am faterion cyffredinol oedd yn ymwneud â phlismona mewn ardaloedd gwledig ond ni allai siarad mewn manylder am unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Heddlu Dyfed-Powys.

1.3 Yr oedd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys chwe awdurdod unedol gyda phoblogaeth o 650,000, ac yr oedd yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel i fyw ynddi. Nodweddir yr ardal hon gan dwristiaeth, diwydiant a bywyd gwledig ac roedd cyllideb yr Awdurdod wedi ei dyrannu yn unol â hynny. Nod yr Awdurdod oedd darparu cefnogaeth o ansawdd ar gyfer anghenion lleol. Un o themâu Deddf Tor-cyfraith ac Anhrefn 1998 oedd hyrwyddo partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn delio â thor-cyfraith trwy gyfrwng gwasanaeth heddlu oedd wedi'i seilio yn y gymuned. Yr oedd awdurdodau heddlu yn gweithio i hyrwyddo atebion lleol i broblemau lleol ond trwy gyfrwng dull gweithredu cydlynus o hybu arfer dda ar draws pob ardal. Cynorthwywyd y dull gweithredu yma wrth i'r heddlu gydweithio gyda grwpiau cymunedol ymgynghorol oedd yn cynnwys aelodau etholedig lleol ac roeddent yn helpu'r heddlu i fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r cyhoedd. Gyda chymorth Prifysgol Cymru, Bangor cynhaliwyd arolwg ffôn chwarterol er mwyn sicrhau bod barn leol yn elfen gref o waith cynllunio'r heddlu a oedd yn cael ei bennu i raddau helaeth gan fuddiannau llywodraeth ganol a lleol.

1.4 Yr oedd Adain dan arweiniad Arolygydd wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yn gyfrifol am blismona awdurdod unedol Meirionnydd. Fel mewn ardaloedd eraill yr oedd yno gynnydd tymhorol yn y boblogaeth ond trwy waith caled yr oedd y gyfradd tor-cyfraith gyffredinol yn cael ei chadw'n isel. Yn sgil cyflwyno dadansoddiad o dor-cyfraith ar sail TG a mynediad at ddata, ynghyd â dylanwad mewnbwn lleol, wedi galluogi'r Awdurdod i symud o fod yn wasanaeth

"adweithiol" i fabwysiadu dull gweithredu oedd yn golygu atal tor-cyfraith. Yr oedd gwelliannau diweddar mewn TG wedi golygu y gallai plismyn ar batrôl gael mynediad at ddata oedd yn cael ei gadw'n ganolog gan ymateb ar sail y wybodaeth honno mewn sefyllfaoedd gweithredol. Yn ychwanegol, yr oedd rhai cerbydau yn gallu cael mynediad tebyg at gronfeydd data gan eu galluogi i gael eu defnyddio fel "gorsafoedd symudol". Er nad oedd maint y traffig ym Meirionnydd yn uchel iawn, yr oedd gan yr Awdurdod ddwy ganolfan ar gyfer delio gyda digwyddiadau traffig, ac roedd gallu ymatebol y canolfannau hyn yn dda. Cyflwynwyd cynlluniau penodol er mwyn delio â thor-cyfraith oedd yn ymwneud â cherbydau, oherwydd er bod nifer yr achosion yn isel fe welwyd cynnydd diweddar.

1.5 Cyfeiriodd y Prif Gwnstabl at ffigyrau darganfod tor-cyfraith (mae'r rhain wedi eu cynnwys yn **atodiad 1**) a nododd bod "cynnydd" o 153% wedi bod mewn achosion o drais yn y cartref wrth i'r cyhoedd deimlo'n fwy hyderus i adrodd am achosion o'r fath wrth yr heddlu. Dros y 15 mlynedd diwethaf yr oedd dull gweithredu newydd oedd yn golygu gweithio'n agos gyda grwpiau merched a darparu cymorth i ddioddefwyr wedi helpu. Gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn troseddau treisiol er na fu'r cynnydd mor fawr yng Ngogledd Cymru lle llwyddwyd i ddatrys dros 88 % o'r troseddau a gofnodwyd.

1.6 Yr oedd yno oblygiadau cyllidebol i blismona ardaloedd gwledig, gallai gymryd mwy o amser i gyrraedd rhai ardaloedd, er hynny yr oedd y targed i gyrraedd digwyddiadau o fewn 20 munud, ac roedd hyn yn cael ei gyflawni 80-90% o'r amser. Ar adegau yr oedd defnyddio hofrenyddion yr heddlu yn hanfodol er mwyn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau. Yr oedd gan yr Awdurdod y gallu i ddefnyddio gynnau. Crëwyd anawsterau cyfathrebu gan isadeiledd Meirionnydd gan gynnwys problemau radio. Effeithiwyd ar ffonau symudol ac ar adegau bu'n rhaid i swyddogion yr heddlu ddefnyddio blychau ffôn a ffonau preifat. Yr oedd cynllun ar droed i drawsnewid cyfathrebu ledled y DU.

1.7 At y dyfodol yr oedd yr Awdurdod yn gweithio er mwyn sicrhau bod ei ymateb rheng flaen yn symudol, er mwyn sicrhau bod cerbydau'r Awdurdod yn meddu'r offer hanfodol i gael mynediad at ei wasanaethau TG, er mwyn parhau i fod yn weledol o fewn yn y gymuned a chreu cysylltiadau agosach gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

1.8 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth ac fe gafwyd ymateb iddynt gan y Prif Gwnstabl:

- pa gamau oedd yn cael eu cymryd i hybu atal tor-cyfraith ymysg pobl ifanc a beth oedd agwedd yr Awdurdod tuag at faterion yr ifanc yn gyffredinol;
- beth oedd rôl yr Awdurdod mewn atal tor-cyfraith;
- a fyddai cyllid ar gyfer ardaloedd gwledig yn cynyddu i lefelau mannau eraill;
- a oedd yno gysylltiadau gydag awdurdodau heddluoedd eraill mewn ymdrech i leihau tor-cyfraith;
- dylai fod yn hawdd adnabod data sy'n ymwneud ag ystadegau tor-cyfraith mewn

ardaloedd gwledig o fewn ffigyrau troseddu cyffredinol;
- a allai'r Awdurdod adnabod natur troseddau treisiol a disgrifio sut yr oedd hyn yn berthnasol i ardaloedd gwledig;
- a oedd troseddwyr yn cael eu cynnwys mewn gweithred o wneud iawn am eu trosedd fel rhan o ddarpariaeth cefnogaeth i ddioddefwyr tor-cyfraith;
- beth oedd agwedd yr Awdurdod tuag at gategorïau gwahanol o gyffuriau ac a oedd hyn yn wahanol i agwedd Heddlu Dyfed-Powys; ac
- a oedd gan yr Awdurdod farn ar ddatganoli cyfrifoldeb am y gwasanaeth heddlu i'r Cynulliad Cenedlaethol, a fyddent yn gweld hyn fel ffordd o gynorthwyo cynnydd mewn cyllid.

1.9 Dywedodd y Prif Gwnstabl fod tor-cyfraith ymhlith yr ifanc yn fater o bryder mawr i'r heddlu. Mater o ddrygioni oedd hyn fel rheol ond mewn lleiafrif o achosion fe allai hyn arwain at weithgareddau tor-cyfraith. Yr oedd chwe heddwas ar draws y gwasanaeth wedi eu dynodi i dreulio llawer o'u hamser yn siarad gyda phobl ifanc a'u hysbysu o beryglon bywyd troseddol. Pe bai argymhellion diweddar yn cael eu derbyn yn llawn, byddai £1.59 miliwn ychwanegol ar gael – digon i ddarparu 40 cwnstabl. Cydnabyddir bod plismona trefol yn gostus, yr oedd angen i'r llywodraeth edrych ar lefelau dwysedd a’r anawsterau a grëwyd gan yr angen i blismona ardaloedd gwledig. Yr oedd cyswllt gyda heddluoedd eraill yn enwedig gydag awdurdodau heddlu yn Lloegr oedd yn rhannu ffiniau gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Yr oedd canran uchel o droseddwyr yn teithio i mewn i ardal Gogledd Cymru ac roedd yr heddlu yn Adain Sir Ddinbych yn gweithredu fel "heddlu'r porth", gan ddelio â throseddwyr oedd yn dod i mewn i'r ardal o'r dwyrain.

1.10 Paratowyd ffigyrau tor-cyfraith ar sail sirol ar gais y comander adrannol lleol. Yr oedd yr Awdurdod yn targedu bwrgleriaeth – edrych pwy oedd yn gyfrifol, troseddau ceir – adnabod troseddwyr oedd â record, pennu pa dystiolaeth oedd ar gael, systemau TG – archwilio amser, leoliad, amlder, data i helpu canolbwyntio arian cyfyngedig er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol. Yr oedd cadw gwyliadwriaeth, fel rhan o blismona cymunedol, yn hytrach na thargedu penodol, yn chwarae ei ran. Ni allai'r heddlu ddibynnu mwyach ar aelodau'r cyhoedd a oedd yn gynyddol amharod i roi tystiolaeth mewn llys.

1.11 Nid oedd agwedd yr Awdurdod tuag at ddefnyddio a chanfod cyffuriau yn wahanol i heddluoedd eraill. Yr oedd heddweision lleol yn ymwybodol o gyflenwyr ac o ble yr oedd y cyffuriau'n dod, ac roedd 6 heddwas wedi'u penodi i fod yn gyfrifol am hyn. Rhan o'u rôl yw atal pobl ifanc rhag ymhel â chyffuriau, ac mae'r heddweision yn treulio eu hamser yn siarad gyda phobl ifanc mewn ysgolion a'r tu allan ac fel rhan o'r rhaglen cefnogi dioddefwyr yr oedd heddweision yn aml yn mynd â throseddwyr ifanc i'r carchardai er mwyn iddynt weld sut beth oedd bywyd carchar. Yr oedd yr Awdurdod yn rhannu gwybodaeth gyda heddluoedd eraill. Un mater o bryder oedd gorfod gweithio yn ôl canllawiau'r Swyddfa Gartref ynghylch cyflwyno rhybuddion a ellid ei ystyried fel ffordd "de facto" o labelu rhywun yn droseddwyr, ond roedd yr Awdurdod wedi ceisio darbwyllo trwy ailaddysgu. Eglurodd y Ditectif Arolygydd Mark Owen fod cynllun rhybudd trosedd gyffuriau ar waith oedd yn cael ei redeg gan yr heddlu ar y cyd â

mudiadau gwirfoddol. Mewn cymhariaeth â 23% o droseddwyr a gyhuddwyd yn aildroseddu, o’r rhai a aeth drwy'r cynllun rhybudd dim ond 5% oedd yn aildroseddu. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yr oedd yr Awdurdod wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Ysgrifennydd ac roedd yn fodlon bod cysylltiadau cadarn wedi’u creu. Yr oedd llawer gan yr Awdurdod i'w gynnig ac roedd yn benderfynol na fyddai'n syrthio rhwng llywodraeth ganol a'r Cynulliad Cenedlaethol. Mater i eraill fyddai penderfynu ynghylch cyswllt agosach neu ehangu cyfrifoldebau.

1.12 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Argent am ei gyflwyniad.

**Eitem Agenda 2 : Bwrdd Croeso Cymru**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd fod twristiaeth yn elfen bwysig o economi Cymru. Atgoffodd y cyfarfod fod Aelodau eisoes wedi clywed am y cynlluniau amrywiol oedd ar waith mewn cyfarfodydd blaenorol yn dilyn cyflwyniadau gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Partneriaeth y Canolbarth a thrwy'r sioeau teithiol datblygiad cynaliadwy. Dywedodd fod twristiaeth yn wynebu nifer o sialensau yn y Canolbarth, yn enwedig o gofio nad oedd y tymor yn un hir a bod problemau mynediad. Yn erbyn y cefndir yma y gwahoddwyd Jonathan Jones, Prif Weithredwr y Bwrdd Croeso i siarad am ei weithgareddau yn y Canolbarth.

2.2 Dywedodd Mr Jones wrth y Pwyllgor fod Bwrdd Croeso Cymru wedi ei sefydlu ym 1969, gan ennill pwerau i farchnata ei hun dramor ym 1992 (bu'r Alban yn gwneud hyn ers 1984) ond ni dderbyniwyd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Yn Lloegr clustnodwyd oddeutu 5% o’r Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer twristiaeth, 6% oedd y ffigwr ar gyfer yr Alban a chlustnodwyd 7% ar gyfer twristiaeth yn yr Iwerddon (gan gynnwys arian amcan 1). Yng Nghymru yr oedd y ffigwr yn 7%, gan adlewyrchu cyfraniad sylweddol iawn busnesau bach. Yr oedd o'r farn fod angen rhoi sylw penodol i dwristiaeth ynghyd ag arian ychwanegol o ffynonellau canolog.

2.3 Cyfeiriodd Mr Jones at bum cynllun datblygiad integredig a gefnogwyd gan bartneriaethau gydag awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru – yn Aberystwyth, y Bermo, Aberhonddu, Llanandras a Machynlleth. Hyd yma yr oedd y cynlluniau wedi costio £1.6 miliwn gan ddenu £5 miliwn o'r sector preifat. Yr oedd wedi cynhyrchu 166 o swyddi newydd parhaol. Yr oedd angen rhagor o arian er mwyn ariannu gweithgareddau economaidd pwysig yng Nghymru, oedd yn creu 9 o bob 100 swydd barhaol yng Nghymru. Yr oedd angen mwy o ymdrech er mwyn denu entrepreneuriaid i'r diwydiant er mwyn gwneud y mwyaf o botensial twristaidd cyfoeth diwylliannol Cymru trwy ei hiaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth a'i phobl. Yr oedd twristiaeth cyn bwysiced i Gymru ag amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd ac yn wir yr oedd y sectorau hyn yn gweithio'n agos er budd ei gilydd.

2.4 Pennwyd cyllid at y dyfodol ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig fel a ganlyn: £150 miliwn ar gyfer Iwerddon, £20 miliwn ar gyfer yr Alban am y ddwy flynedd ariannol mesaf a £15 miliwn

i Gymru am y ddwy flynedd ariannol nesaf. Er hynny, yr oedd cyllideb ddatblygu o £3.5 miliwn ar gael trwy Awdurdod Datblygu Cymru i helpu busnesau bach i ddatblygu. Nid oedd arian tebyg ar gael i Fyrddau Croeso Lloegr a'r Alban. O'r 26 miliwn o ymwelwyr tramor a ddaeth i'r DU yr oedd llai na miliwn wedi ymweld â Chymru.

2.5 Nid oedd gwyliau glan y môr yn yr haf yn flaenoriaeth bellach i'r sector twristiaeth yng Nghymru. Yn y Canolbarth conglfeini'r sector twristaidd oedd gwyliau gweithgaredd a gwyliau byr oedd yn canolbwyntio ar gerdded a beicio lle nad oedd tywydd da yn anghenrheidiol. Yr oedd trafnidiaeth gyhoeddus gwael neu gyfyngedig, yn enwedig yn y Canolbarth yn cyfrannu at y mewnlifiad angenrheidiol o geir preifat, felly nes y gwelir gwell trafnidiaeth gyhoeddus yr oedd y sector twristaidd yn ddibynnol ar bobl yn gallu gyrru yn ôl a blaen i Ganolbarth Cymru. Cyfeiriodd Mr Jones at strategaeth Twristiaeth i Gymru, sydd ar gael fel MID 01-00(p.1W), a oedd i'w drafod gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

2.6 Ymysg y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth oedd y canlynol:

- ni chafwyd llawer o gyfeiriad yn Strategaeth Twristiaeth y Canolbarth at y rhan y gallai'r diwylliant Cymreig ei chwarae mewn denu ymwelwyr;
- sut allai twristiaeth ddiwylliannol ddod yn ffaith, gan gynnwys diddanwyr ac artistiaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ganolfannau lleol, tai bwyta, tafarndai ac ati;
- agwedd arall oedd hyrwyddo ymchwil i hanes teuluol fel yr amlinellwyd yng nghynllun 'Hiraeth 2000';
- yr oedd absenoldeb nodweddion ffisegol cryf, fel Eryri, yn y Canolbarth yn ei gwneud yn anodd cyfleu Canolbarth Cymru fel atyniad naturiol yn ei rhinwedd ei hun – sut ellid goresgyn hyn;
- a oedd yno gynlluniau i hyrwyddo Trefaldwyn, coedwigoedd y Canolbarth a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- pa ran oedd gan TG i'w chwarae mewn twristiaeth yn gyffredinol; a
- pha ddarpariaeth oedd yna i hyfforddi darparwyr twristiaeth er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd ar gyfer ymwelwyr ar eu hymweliad cyntaf â Chymru.

2.7 Cydnabu Mr Jones fod yno le i gryfhau rhai agweddau o Strategaeth Twristiaeth y Canolbarth, yn enwedig y modd y gellid defnyddio diwylliant Cymru i ddenu ymwelwyr. Yr oedd yr Iwerddon wedi gwneud hyn y llwyddiannus iawn. Yr oedd digon o enghreifftiau o ddiwylliant lleol, er enghraifft, ymwelwyr o Iwerddon yn mynychu gyl Geltaidd yn Aberteifi, yr oedd Theatr Clwyd wedi perfformio dramâu yn seiliedig ar waith Alexander Cordell, a chan gynnwys gyl fyd enwog Y Gelli a Gyl Jazz Aberhonddu. Yr oedd angen cynnig mwy o wyliau ar sail thematig gan ddefnyddio adnoddau cyfoethog presennol Cymru e.e ymweliadau â gerddi Cymru gan ddefnyddio'r Gerddi Botanegol Cenedlaethol newydd yng Ngorllewin Cymru, Aberglasne a Bodnant. Sefydlwyd asiantaeth oedd yn cynnwys cronfa ddata o ddiddanwyr lleol er mwyn cysylltu â hwy i ddarparu adloniant Cymreig ei naws ar gyfer ymwelwyr mewn tafarndai a thai bwyta.

2.8 Lansiwyd cynllun 'Hiraeth 2000' gyda fideo arbennig er mwyn annog rhai sydd â chysylltiadau Cymreig i ymweld â Chymru yn y flwyddyn 2000, ond y gobaith oedd y byddai effaith y cynllun yn mynd y tu hwnt i un flwyddyn. Yr oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dan arweiniad y Prif Lyfrgellydd, Andrew Green, yn gweithio er mwyn darparu ei gasgliad o lyfrau, darluniau a dogfennau ar y Rhyngrwyd. Byddai'r holl waith diwylliannol ei sail yn ychwanegu at y wybodaeth oedd ar gael am Gymru dramor.

2.9 Yr oedd angen canolbwyntio gwaith ar wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau presennol, fel maes y Sioe Amaethyddol Frenhinol, a fyddai'n gartref i Rali Network Q eleni. Cynhelir Cynhadledd Beicio Cenedlaethol yng Nghymru eleni ar Ebrill 9ed, pan fyddai datblygiad Coed y Brenin fel canolfan genedlaethol ar gyfer beicio mynydd yn cael ei archwilio. Yr oedd Gwesty'r Celtic Manor wedi gwneud bid i lwyfannu Cwpan Ryder yn 2013, ac erbyn hynny efallai y byddai'n bosib creu cyswllt rhwng cyrsiau golff ledled Cymru, yr oedd y Bwrdd Croeso ar hyn o bryd yn archwilio'r posibiliadau gydag Undeb Golff Cymru.

2. 10 Awgrymodd Mr Jones fod lle i ddatblygu atyniad amlwg cestyll yng Nghymru, yr oedd wedi awgrymu cyn hyn y gellid datblygu adain o'r cestyll yma fel unedau gwesty bychain. Yr oedd cyfleusterau cyffelyb yn boblogaidd iawn mewn rhannau eraill o Ewrop wrth ddenu ymwelwyr tramor. Dylid darbwyllo Cadw i fabwysiadu agwedd fwy mentrus a hyblyg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial twristaidd ei eiddo.

2.11 Yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu i hyrwyddo partneriaethau ledled Cymru, ond roedd yn anodd hyrwyddo buddiannau mor amrywiol ar draws Cymru. Nid oedd un ddelwedd gorfforaethol wirioneddol y gellid ei mabwysiadu. Dylai hyrwyddo ansawdd a safonau uchel ym mhopeth a wnaed fod yn un o'r amcanion. Yr oedd y Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth - Springboard Cymru - yn codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion a cholegau o'r angen am staff a rheolwyr twristiaeth addas wedi eu hyfforddi'n drylwyr. Yr oedd gan TG ran allweddol i'w chwarae yn hyn pe bai modd annog busnesau bach a'u cynorthwyo i hyrwyddo eu hunain trwy gyfrwng y rhyngrwyd.

2.12 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am gyflwyniad diddorol a brwdfrydig a oedd wedi ennyn amrywiaeth o gwestiynau gan Aelodau.

**Eitem Agenda 3 : Cyflwyniadau Cyhoeddus**

3. 1 Cafwyd tri chyflwyniad, anerchiad ar y cyd gan Iwan Morgan Williams a Llinos Lloyd Roberts o Gyngor Ysgol y Moelwyn; Dylan Rhys Griffiths, Rheolwr Datblygu Tref Cyfle Ffestiniog a Julie Turner o Y Cylch/The Circuit. Amgaeir testun y cyflwyniadau hyn fel atodiadau 2, 3 a 4.

**Eitem Agenda 4 : Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

4.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

**Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 7fed yn Theatr Mwldan, Aberteifi.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchiadau unwaith eto i Mr Dewi Lake am ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal yn yr ysgol. Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm.

**Attodiad 1**

**Anogir y sawl sy'n darparu papurau I ddarparu papurau dwyieithog os ydynt yn gallu ac yn fodlon gwneud hynny. Maent wedi eu attynhyrchw yn yr iaith y cawsant eu derbyn.**

**NORTH WALES POLICE**

*REDUCING CRIME IN RURAL COMMUNITIES*

**Michael Argent, QPM, LLB, Med**

**Chief Constable**

**North Wales Police**

**An Overview**

- North Wales
- Managing Diversity
- Development
- Partnerships
- Consultation

**Gwynedd**

- Large, predominantly rural area
- Low population
- A relatively low incident rate

*CRIMES PER 1000 PEOPLE*

| Crime Type | South Gwynedd | North Wales Average | National Average |
|---|---|---|---|
| All Crime | 19 | 68 | 102 |
| Violent Crime | 6 | 8 | 11.6 |
| Burglary | 1.5 | 3.8 | 8.4 |

*What are we doing?*

- Empowerment
- Intelligence Led, Targeted Policing
- NET 2000
- Strategically Located Premises coupled with increased mobility
- Specific Initiatives
- Rural liaison

*Results*

- Overall Crime reduced by 4%
- Burglaries at Peoples Home reduced by 30%
- A 153% increase in reports of domestic violence
- 85% of Violent offences solved

*Problems?*

- Sparsity
- Response times
- Funding
- Infrastructures
- Seasonal Factors
- Watch Schemes
- Public Perception

*The Future?*

- A Focus on Frontline Policing
- Continued Partnership working
- Closer links with Assembly

**Attodiad 2**

**YSGOL Y MOELWYN SCHOOL COUNCIL**

**This presentation was not provided in a form that could be placed on the Internet.**

**Attodiad 3**

**CYFLE**

• DIOLCH MR CADEIRYDD CROESO I CHWI OLL I FRO FFESTINIOG, MAE'N BLESER AC YN FRAINT I'R ARDAL EICH BOD WEDI DEWIS YMWELA Â NI - A DIOLCH HEFYD AM Y CYFLE I GYNNIG CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR BORE MA.

• FY ENW I YW DYLAN GRIFFITHS FY SYDD YW RHEOLWR DATBLYGU TREF GYDA CHYFLE FFESTINIOG A HOFFWN GYMERYD MUNUD NEU DDAU O'CH AMSER I ESBONIO PWY YW CYFLE FFESTINIOG A BETH YR YDYM YN CEISIO EI GYFLAWNI AR GYCHWYN Y MILENIWM NEWYDD.

• HAPUS IAWN I ATEB UNRHYW GWESTIYNAU AR DDIWEDD Y CYFLWYNIAD.

---

• FEL Y GWYDDOCH, DWI'N SIWR, MAE BLAENAU WEDI WYNEBU HER ANFERTHOL YN Y DEGAWDAU DIWETHAF YN SGÎL DIRYWIAD Y DIWYDIANT LLECHI A'I EFFEITHIAU ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL.

• GRWP CYMUNEDOL YW CYFLE FFESTINIOG SY'N GWEITHREDU FEL ASIANTAETH ADFYWIO AR GYFER BLAENAU FFESTINIOG A'R ARDAL O'I HAMGYLCH.

• MAE AELODAETH CYFLE WEDI EI DYNNU O BOB RHAN O'R GYMUNED LEOL, O BOBOL BUSNES I AELODAU O'R CYNGOR TREF, A'N BWRIAD, A'N AWYDD, YW I WELD YR ARDAL YN FFYNNU YN ECONOMAIDD AC YN DDIWYLLIANNOL YN Y GANRIF NEWYDD AC YN ADENNILL EI STATWS FEL CANOLFAN RHANBARTHOL.

• CEFNOGIR GWAITH CYFLE GAN AWDURDOD DATBLYGU CYMRU A'R UNDEB EWROPEAIDD DRWY LAW Y CYNLLUN MENTER TREFI MARCHNAD AC Y MAE CYFLE HEFYD YN CYNORTHWYO Â GWEITHREDU'R CYNLLUN MENTER ARDAL Y LLECHEN A WEINYDDIR GAN GYNGOR GWYNEDD.

• CYNLLUN A WEITHREDIR AR DRAWS 5 DYFFRYN LLECHI GWYNEDD YW

MENTER ARDAL Y LLECHEN AC MAE'R CYNLLUN WEDI LLWYDDO I DDENU CYMORTH O GRONFA HER CYFALAF Y CYNULLIAD.

• MAE CYFLE FFESTINIOG YN GWEITHREDU FEL GWEITHGOR LLEOL AR GYFER Y CYNLLUN YN NYFFRYN FFESTINIOG GYDA'R BWRIAD O HWYLUSO MEWNBWN EFFEITHIOL GAN Y GYMUNED LEOL I'R CYNLLUN.

• O'R 6 PROSIECT SY'N RHAN O'R CYNLLUN MAE 4 O BERTHNASEDD ARBENNIG I FRO FFESTINIOG:

- DATBLYGU CWMNI ADWY CYF. FYDD YN ADDASU 3 ADEILAD MASNACHOL SEGUR YN Y DREF AR GYFER DIBENION LLEOL;

- PECYN DATBLYGU BUSNES SY'N CYNNIG CYMORTH GRANT I FUSNESAU A GRWPIAU CYMUNEDOL;

- SEFYDLU CANOLFAN DYSGU-GYDOL-OES YN Y DREF FYDD YN DARPARU HYFFORDDIANT AC ADNODDAU TECHNOLEG O FEWN Y GYMUNED;

- DATBLYGIAD RHWYDWAITH O GYLCHDEITHIAU YN YR ARDAL FYDD YN DEHONGLI HANES Y FRO.

• MAE'R HOLL BROSIECTAU YN DATBLYGU'N GYFLYM YN YR ARDAL AC EDRYCHWN YMLAEN AT EU GWELD YN CYFRANNU AT YMDRECHION Y TRIGOLION LLEOL I LWYDDO YN Y DYFODOL.

• PRIF FFYNHONNELL CYLLID CYFLE FFESTINIOG YW CEFNOGAETH HAEL Y CYNLLUN MENTER TREFI MARCHNAD DRWY LAW YR AWDURDOD DATBLYGU. YN OGYSTAL Â CHANIATÁU FY NGHYFLOGAETH I A DARPARU SWYDDFA I GYFLE YNG NGHANOL Y DREF BYDD CYMORTH Y CYNLLUN YN EIN CANIATÁU I YMGYMRYD A SAWL CYNLLUN YN YSTOD Y FLWYDDYN 2000 GAN GYNNWYS:

• YSTYRIED YMGYMRYD A NIFER O ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB I DDATBLYGU ATYNIADAU NEWYDD A GWELLIANNAU YN YR ARDAL

• YSTYRIED DATBLYGIADAU CYNALIADWY YN YR ARDAL A GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL. RYDYM EISOES WEDI CYFLWYNO CAIS I GAEL EIN CYNNWYS YN RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY CADW CYMRU'N DACLUS

• GWAITH AR Y CYD GYDA CHYMUNED BUSNES ARDAL FFESTINIOG, GAN

GYNNWYS CYFRES O FRECWASTAU BUSNES AC YMGYRCH I FARCHNATA'R CANOLFAN MASNACHOL

- SICRHAU PRESENOLDEB I ARDAL FFESTINIOG AR Y WE FYD EANG

- DATBLYGU PROSIECT I FARCHNATA'R ARDAL I DWRISTIAID DRWY GYNHYRCHU TAFLEN A PHOSTER FYDD YN HYRWYDDO'R PECYN O WEITHGAREDDAU AC ATYNIADAU YN Y FRO A CHYNHYRCHU MAP NEWYDD O'R ARDAL I HWYLUSO YMWELIAD TWRISTIAID.

- AC YN FY NHYB I EIN CYNLLUN MWYAF CYFFROUS AR GYFER ELENI. PROSIECT I DDATBLYGU BRAND UNIGRYW I ARDAL FFESTINIOG.

DEILLIODD Y PROSIECT HWN O'R TRAFODAETHAU SYDD WEDI BOD YN MYND YMLAEN YN Y CYNULLIAD AR BRANDIO CYMRU GYFAN. PENDERFYNWYD FOD LLE, AC ANGEN, I DDATBLYGU BRAND UNIGOL I ARDAL FFESTINIOG I GYFLWYNO DELWEDD BOSITIF O'N CYMUNED AR I WRTH-DROI Y CANFYDDIADAU NEGYDDOL SY'N BODOLI'N BRESENNOL

YNG NGHAM CYNTAF Y PROSIECT MAE MYFYRWYR CELF Y COLEG TRYDYDDOL LLEOL, COLEG MEIRION-DWYFOR, YN DATBLYGU EU SYNIADAU AM LOGO I'R ARDAL FEL RHAN O'R ELFEN DYLUNIO GRAFFEG O'U CWRS.

YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS, BYDD Y SYNIAD LLWYDDIANNUS YN CAEL EI DDEWIS AC YNA'N CAEL EI DDATBLYGU GAN ASIANTAETH DYLUNIO PROFFESIYNOL, CYN IDDO GAEL EI YMGORFFORI I FEWN I LAWLYFR BRAND FYDD YN HYRWYDDO'R LOGO AC YN CYNNIG CYNGOR AR SUT ALL GWERTHOEDD BRAND FFESTINIOG GAEL EU HADLEWYRCHU PAN YN CYFLWYNO'R ARDAL GAN DDEFNYDDIO LLUNIAU A GEIRIAU. MAE CYFLE HEFYD YN GOBEITHIO CREU DETHOLIAD O DDEUNYDDIAU I HYRWYDDO'R BRAND.

UCHELGAIS CYFLE YW I WELD BRAND FFESTINIOG YN CAEL EI FABWYSIADU GAN Y NIFER MAWR O FUSNESAU, GRWPIAU GWIRFODDOL, CLYBIAU A SEFYDLIADAU LLEOL FEL ENGHRAIFFT O'U HAWYDD I GYDWEITHIO AC I WELD YR ARDAL YN FFYNNU.

A'N GOBAITH YW Y GALLWN, DRWY SIARAD Â'R UN LLAIS, ANNOG POBOL LLEOL I DDATGAN EU BALCHDER YN YR ARDAL A SICRHAU FOD TWRISTIAID AC POBL YN YR ARDAL YN EHANGACH YN SYLWEDDOLI GYMAINT SYDD GAN Y FRO I'W GYNNIG.

- DIOLCH AM EICH AMSER - FEL Y GWELWCH RYDYM YN CEISIO AC ARLOESI YMA YN FFESTINIOG A DIOLCH I FRWDFRYDEDD, EGNI AC AGWEDD BOSITIF POBOL ARDAL FFESTINIOG DWI'N SICR Y BYDDWN YN LLWYDDO.

- GOBEITHIWN, FODD BYNNAG Y BYDDWCH CHI, FEL UNIGOLION DYLANWADOL, YN EIN CEFNOGI YN EIN HYMDRECHION AC YN EIN HELPU, YNG NGHYFNOD AMCAN 1, I SICRHAU FOD ARDALOEDD DEFREINTIEDIG MEGIS FFESTINIOG YN CAEL Y FANTAIS GORAU O'R CYNLLUN.

**Attodiad 4**

## Y CYLCH

**This presentation was not provided in a form that could be placed on the Internet.**